Gwyddoniaeth Pawb

# Creu Enfysau

- Adlewyrchiad Golau

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd yma'n annog chwarae ac archwilio gwyddonol. Mae pedwar dull wedi'u rhestru isod ar gyfer creu enfys gydag offer syml. Cofiwch ganiatáu meddwl gwyddonol drwy ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd a pham mae pob dull yn gweithio.

## Adnoddau

- Dŵr
- Cynhwysydd gwydr
- Arwyneb/papur/taflen lliw golau
- Cryno ddisg/drych
- Diwrnod heulog neu dortsh
- Pibell ddŵr/can dyfrio

## Gweithgaredd

1. Sefwch gyda'r haul y tu ôl i chi a chwistrellwch bibell ddŵr neu arllwyso dŵr o gan dŵr i greu ffynnon. Chwiliwch am enfys o olau yn y dŵr.
2. Daliwch gynhwysydd/gwydraid o ddŵr i fyny fel bod golau'r haul yn mynd drwyddo. Gosodwch ddalen/papur gwyn ar y llawr yr ochr arall a chwilio am eich enfys.
3. Rhowch ddrych/hen gryno ddisg dan ddŵr mewn cynhwysydd dŵr. Gwnewch yn siŵr bod y drych/cryno ddisg ar ongl i wynebu'r haul a rhowch eich papur/dalen rhwng y dŵr a golau'r haul.
4. Daliwch wydraid o ddŵr o flaen ffenestr lle mae golau'r haul yn dod drwodd. Daliwch eich papur o dan y gwydr a gwylio'r enfys yn ymddangos.

D.S. Peidiwch byth ag edrych yn uniongyrchol ar yr haul!

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi'n teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu a'r syniadau ymestyn mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r wers yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Dangos meddwl gwyddonol
- Cynllunio ymchwiliad gwyddonol

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth | Ymchwiliadau | Ymchwilio i sut i wneud yr enfys fwyaf/ddisgleiriaf, neu beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n newid uchder neu ongl yr offer |
| | | Ysgrifennu canlyniadau eich arbrawf |
| Celf | Defnyddio sialc/pastelau | Tynnu llun/paentio llun o'r enfysau sydd wedi'u creu gan ganolbwyntio ar y gwahanol liwiau |
| | Deunyddiau naturiol | Dod o hyd i ddeunyddiau naturiol sy'n bob lliw o'r enfys a chreu celf naturiol |
| Llythrennedd ac Iaith | Ysgrifennu disgrifiadol | Defnyddio cyflythrennu, cyffelybiaethau, ac ati, i ddisgrifio'r enfysau |
| | Cyfarwyddiadau | Creu cyfarwyddiadau i eraill wneud enfysau |
| Mathemateg | Mesuriadau | Mesur pellteroedd, meintiau neu gyfaint y dŵr yn yr arbrawf yn gywir |
| | Casglu data | Casglu data sy'n ymwneud â meintiau'r enfysau sydd wedi'u creu ac ati a darganfod y cyfartaledd, creu siartiau ac ati |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890



Holly leaf



Daisy



Oak leaf



Ladybird



Elm leaf



Woodlouse

Learning through Landscapes

If you would like to develop your outdoor learning knowledge and skills,
take a look at our range of training courses: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© This activity sheet was created by the Learning through Landscapes Trust. Registered charity no. in England and Wales 803270 and in Scotland SCO38890